# SUT RYDYM YN DEFNYDDIO GWYBODAETH AMDANOCH CHI

**Mae angen i ni ddweud wrth ein cyllidwyr sut rydym yn defnyddio eu harian, a dangos bod Yr Hangout yn cefnogi pobl ifanc.**

**Mae hyn yn golygu y bydd yn rhaid i ni ofyn i chi am rywfaint o wybodaeth amdanoch! Bydd casglu'r wybodaeth hon yn ein helpu i sicrhau bod Yr Hangout mor ddefnyddiol ag y gall fod, a gweld a oes unrhyw beth y mae angen i ni ei wella.**

**Mae'n bwysig eich bod yn gwybod y bydd unrhyw wybodaeth a roddwch i ni yn cael ei chadw'n ddiogel. Gallwch newid eich meddwl am gymryd rhan mewn unrhyw un o'n prosiectau ar unrhyw adeg trwy anfon neges e-bost atom.**

**Gallwch hefyd ofyn i ni ddileu eich data ar unrhyw adeg. Yna byddwn yn cael gwared ar unrhyw wybodaeth sydd gennym amdanoch.**

## Sut ydym ni'n cadw'ch gwybodaeth?

Byddwn yn cadw'ch gwybodaeth ar bapur (os byddwch yn llenwi rhywbeth) nes i ni ei hychwanegu at system gyfrifiadurol ddiogel.

Dim ond staff Platfform fydd yn cael mynediad at y wybodaeth hon, a dim ond os oes ei hangen arnynt i gynnig cefnogaeth i chi. Bydd eich gwybodaeth yn cael ei chadw'n gyfrinachol a chaiff ei dinistrio'n ddiogel pan na fydd ei hangen mwyach. Rydym yn cadw rhai cofnodion cefnogaeth am 10 mlynedd, oni bai eich bod yn gofyn i ni eu dinistrio.

Mae gennych hawl i weld y wybodaeth sydd gennym amdanoch chi, a gallwch ofyn am hyn trwy gysylltu â ni. **hangout@platfform.org**

## Sut rydym yn cael mynediad at wybodaeth amdanoch chi?

Gall rhai staff Yr Hangout gael mynediad at gofnodion y GIG am eich cefnogaeth bresennol ac yn y gorffennol. Byddwn yn gwneud hyn pan fydd angen i ni wneud hynny er eich diogelwch chi yn unig, neu i gynnig cefnogaeth i chi.

Bydd y wybodaeth hon yn cael ei chadw'n gyfrinachol ac yn cael ei rhannu ag aelodau'r tîm sydd angen ei gwybod yn unig. Mae gennym gytundeb rhannu data â'r GIG sy'n ein galluogi i ddarllen y cofnodion hyn a siarad â gwasanaethau eraill os oes gennym unrhyw ddiweddariadau y credwn a fyddai'n eich helpu i gael gwell cefnogaeth gan dimau eraill rydych chi'n ymwneud â nhw.

## Sut ydym ni'n defnyddio'ch gwybodaeth?

Rydym yn defnyddio'ch gwybodaeth i'n helpu ni i'ch cefnogi chi a'ch lles. Rydym hefyd yn cynhyrchu adroddiadau ar gyfer ein cyllidwyr a'n partneriaid (Llywodraeth Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro, a Met Caerdydd) am y gwaith rydym yn ei wneud a'r bobl ifanc rydym yn gweithio â nhw. Ni fydd eich enw na'ch manylion personol eraill yn ymddangos yn yr adroddiadau hyn, felly ni fydd unrhyw un sy'n eu darllen yn gwybod pwy ydych chi.

Byddwn yn defnyddio adborth rydych chi'n ei roi i ni i'n helpu ni i wella gwasanaethau i bobl ifanc. Weithiau byddwn yn defnyddio dyfyniadau neu waith y mae pobl ifanc wedi'i gynhyrchu fel enghreifftiau o'r hyn rydym yn ei wneud, ac efallai y byddwn yn rhannu'r rhain yn ystod gweithdai a chyflwyniadau staff. Ni fyddwn yn defnyddio eich enw wrth wneud hynny.

Weithiau, efallai y bydd angen i ni rannu gwybodaeth amdanoch chi â gwasanaeth arall os oes gennym bryder difrifol am eich diogelwch a'ch lles. Lle bo'n bosibl, byddwn yn trafod hyn â chi yn gyntaf.

Hefyd, byddwn weithiau'n gofyn a hoffech i ni rannu gwybodaeth amdanoch chi â gwasanaethau eraill, fel nad oes yn rhaid i chi egluro pethau iddynt yr ydych chi eisoes wedi'u dweud wrthym.

Mae gennych hawl i dynnu yn ôl eich caniatâd i ni brosesu eich gwybodaeth ar unrhyw adeg trwy anfon neges e-bost i **hangout@platfform.org** neu drwy siarad ag un o aelodau'r tîm yn Yr Hangout.

Mae gennych hefyd yr hawl i gwyno am sut mae eich gwybodaeth wedi'i phrosesu gennym ni. Byddech yn gwneud y gŵyn hon i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) yn: **ico.org.uk/make-a-complaint**

Mae Platfform yn gweithredu'r Hangout, ac mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro yn ei ariannu.

## Defnyddio WhatsApp

Rydym yn defnyddio WhatsApp i siarad â chi i drefnu ein cyfarfodydd ac i gynnig cefnogaeth. Byddwn hefyd yn defnyddio WhatsApp i ddweud wrthych am ddigwyddiadau grŵp. Os na ddymunwch i ni gysylltu â chi trwy WhatsApp, rhowch wybod i ni trwy anfon neges e-bost atom yn **hangout@platfform.org** â'ch enw.

PLATFFORM

Dros iechyd meddwl a newid cymdeithasol